

Proffil o Lyn Cadwallader

Lyn yw Prif Weithredwr Un Llais Cymru a dechreuodd ar ei swydd ar 6 Medi 2010. Mae ganddo gyfrifoldeb ariannol a gweithredol am redeg Un Llais Cymru, sef y corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae ganddo nifer o ddiddordebau gwaith eraill, ac mae'n Gyfarwyddwr yr Uned Cyllidebu Cyfranogol yn y Gogledd ac mae hefyd yn aelod o baneli ymgynghorol Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru a Participation Cymru.

Cyn ymgymryd â'i swydd bresennol cafodd 19 mlynedd o brofiad o lywodraeth leol a'r sector tai yn ne ddwyrain Cymru, ac roedd ei gyfrifoldebau diweddaraf yn cynnwys arwain adran ymchwil corfforaethol a chysylltu â'r cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Dros y pum mlynedd diwethaf bu'n cyfrannu at waith cynllunio busnes corfforaethol, y broses trosglwyddo stoc tai ac roedd yn rhan o dîm bychan fu'n arwain y gwaith o ddatblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen - sef y corff sy'n cyfateb i'r Partneriaethau Strategol Lleol yn Lloegr. Yn ystod y cyfnod hwn arweiniodd yn llwyddiannus beilot cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar ymchwil ac ymgysylltu â'r cyhoedd gan awdurdodau lleol a fraenarodd y tir ar gyfer sefydlu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Enillodd BA (Anrh) mewn Daearyddiaeth o Brifysgol Swydd Stafford, mae'n aelod llawn o'r Sefydliad Tai Siartredig (MCIH) ac mae ganddo gymwysterau ôl-radd mewn tai, gweinyddiaeth fusnes ac arwain gwasanaethau cyhoeddus gan Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Gorllewin Lloegr, yn eu tro. Yn 2009 daeth yn Ymgynghorydd Adolygiadau Cyfoed IDeA a chynhaliodd adolygiad o wasanaethau cwsmer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2009. Mae hefyd yn feddyliwr systemau 'PRUB' cymwysedig, gan ddefnyddio methodolegau Strategaeth Agored.

Mae Lyn yn rhoi pwys mawr ar ddatblygiad proffesiynol, fel y gwelir o'i addysg barhaol yn ystod ei yrfa a amlygwyd uchod a'i gymhwyster proffesiynol ym maes tai. Teimla y gall y Sefydliad Rheolaeth mewn Cynghorau Lleol, yn union fel y Sefydliad Tai Siartredig, chwarae rhan hollbwysig yn datblygu clerod trwy gydol eu gyrfaeod a sicrhau bod ei aelodau yn cael gwybod am y datblygiadau proffesiynol a pholisi diweddaraf ac yn gallu manteisio ar rwydwaith o gefnogaeth i aelodau wrth i'w hanghenion gyrfaol newid gydag amser. Mae'n credu fod digwyddiadau hyfforddiant a rhwydweithio yn allweddol i ddyfodol yr ILCM.

Mae'n briod gyda thri o blant ac yn byw yng Ngwndy, Sir Fynwy. Yn ei amser hamdden mae'n chwarae criced i dîm y pentref, bu'n helpu'n ddiweddar i adfer hen berllan ganoloesol ac ar hyn o bryd mae'n dysgu sut i ddod yn bysgotwr môr medrus!